

CYFARFOD Y CYNGOR – 25 EBRILL, 2018

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 9(A) O AGENDA Y CYNGOR

Yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, fe dderbyniwyd y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig fel y nodir yn eitem 9 (a) o agenda'r Cyngor gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, E.S. Stephens, L. Jones, S. Rees-Owen, M.Weaver, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, E.Webster, S.Evans, A.Chapman, K.Morgan, D.Grehan a D.Macey: -

Ym mharagraff (1), dileu "Llywodraeth Cymru" a rhoi "Cymwysterau Cymru" yn ei le.

Ym mharagraff (2), dileu "Llywodraeth San Steffan" a rhoi "Gorff Rheoleiddiol Annibynnol" yn ei le.

O dan y geiriau "Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu cysylltu â" dileu "Llywodraeth Cymru" a rhoi "Cymwysterau Cymru" yn ei le.

Dileu'r geiriau "yn lleisio barn y Cyngor"; dileu "Aelodau Seneddol Lleol" ac ychwanegu'r geiriau "pob Aelod Cynulliad". Ar ôl "Aelod Cynulliad" ychwanegu "sy'n cynrychioli ein Bwrdeistref". Dileu "a bod barn y Cyngor yn cael ei chlywed mewn cylchoedd". Ar ôl "Bwrdeistref" ychwanegu "a chylchoedd" ac ar ôl "(WLGA)" ychwanegu "yn clywed barn y Cyngor".

Bydd y paragraff yna'n darllen

"Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU cysylltu â Cymwysterau Cymru ar frys er mwyn gofyn iddo adolygu'i benderfyniad, a hefyd i sicrhau bod pob Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli ein Bwrdeistref a chylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn clywed barn y Cyngor."

Os cytuna'r Cyngor i'r diwygiad yma, bydd y rhybudd o gynnig fel a ganlyn:

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

- (1) Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad **Cymwysterau Cymru** i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;
- (2) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan **Gorff Rheoleiddiol Annibynnol** wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;

- (3) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiâu presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cysylltu â **Chymwysterau Cymru** ar frys er mwyn gofyn iddo adolygu'i benderfyniad, a hefyd i sicrhau bod **pob** Aelod Cynulliad **sy'n cynrychioli ein Bwrdeistref** a chylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn clywed barn y Cyngor."